# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 22 Ebrill, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman a J. Protheroe; a M. Evans (Aelod Lleyg).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), H.C. Hamilton a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd**)**.

1027 CYHOEDDIAD –

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol”.

1028 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan Cynghorydd N.J. Wood.

1029 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2024 fel cofnod cywir.

1030 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1031 ADOLYGIAD STRATEGAETH DDIGIDOL - CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024 fel y cynhwyswyd yn yr agenda gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Dywedodd y Cadeirydd, Mr G. Chapman (Aelod Lleyg), nad oedd swyddog o Archwilio Cymru yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad nac i ateb unrhyw ymholiadau.

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol ei bod yn arferol i Archwilio Cymru gyflwyno'r adroddiad mewn un cyfarfod Pwyllgor Cyngor yn unig, ond byddai sylwadau'r Cadeirydd yn cael eu bwydo'n ôl i Archwilio Cymru.

Gofynnodd Mr N. Ireland (Aelod Lleyg) a allai fod mwy o sicrwydd mewn perthynas â chanlyniadau'r camau gweithredu a amlygwyd yn yr adroddiad. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod ymrwymiad i gynnal adolygiad blynyddol o Strategaeth Ddigidol y Cyngor. Byddai'r diweddariadau hefyd yn cynnwys olrhain y dangosyddion perfformiad cysylltiedig. Byddai adroddiad ar gynnydd i ymateb i argymhellion Archwilio Cymru yn cynnwys rhan o'r adroddiadau olrhain rheoleiddiol ar gynnydd a roddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper fod defnyddio technoleg ddigidol yn aml yn cael ei ystyried yn ffordd o arbed arian mewn nifer o ffyrdd, ond bod angen deall hynny'n well o gyd-destun cefnogi pobl yn y Fro nad oedd ganddynt fynediad i dechnoleg. Felly, gofynnodd y Cynghorydd Hooper sut y byddai'r Cyngor yn cefnogi'r rhai a oedd weithiau'n cael eu hallgáu'n ddigidol. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor wedi nodi'r defnydd o dechnoleg ddigidol fel rhan o'i raglen drawsnewidiol a fyddai'n cyfrannu at arbedion. Fodd bynnag, nid arbedion oedd yr unig reswm pam roedd y Cyngor am ddefnyddio digidol, gan y byddai technoleg yn rhyddhau amser swyddogion ac yn creu capasiti o fewn y sefydliad. Roedd Strategaeth y Cyngor yn cynnwys cyfres o ymrwymiadau'n ymwneud â chynhwysiant digidol ac roedd gwaith pellach eisoes ar y gweill gyda phartneriaid y Cyngor i sicrhau bod lleisiau trigolion yn cael eu clywed yn y broses o wneud penderfyniadau. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n cysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd er mwyn cylchredeg fersiwn derfynol y Strategaeth Ddigidol.

Gofynnodd y Cynghorydd J. Protheroe a oedd y Bwrdd Rhaglen Ddigidol wedi'i sefydlu eto. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr fod Tîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor wedi cyfarfod yn ddiweddar er mwyn trafod y portffolio o brosiectau o fewn rhaglen drawsnewid y Cyngor a hefyd mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu a fyddai'n hwyluso hynny. Roedd y Bwrdd Rhaglen Ddigidol yn un o bump neu chwe bwrdd unigol, a byddai cydweithwyr o bob rhan o'r Cyngor yn cael eu henwebu i eistedd ar fyrddau perthnasol. Ar hyn o bryd, roedd y Pennaeth Digidol yn gweithio drwy Gylch Gorchwyl a byddai hynny'n cael sylw mewn adroddiadau yn y dyfodol i'r Cabinet, Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Gofynnodd y Cadeirydd pryd y byddai'r astudiaeth genedlaethol ar gyfer Cymru gyfan yn cael ei chyhoeddi ac a fyddai Archwilio Cymru, fel rhan o'r astudiaeth, yn tynnu sylw at unrhyw arfer da. Yn olaf, ailadroddodd y Cadeirydd y pwynt a bwysleisiwyd gan y Cynghorydd Hooper mewn perthynas â defnyddio technoleg ddigidol a dywedodd y gallai fod angen i'r Cyngor fuddsoddi i arbed dros y blynyddoedd cychwynnol i sicrhau arbedion yn y dyfodol. Mewn ymateb i sylwadau'r Cadeirydd, dywedodd y Cyfarwyddwr fod disgwyl i'r astudiaeth genedlaethol gael ei chyhoeddi yng Ngwanwyn / Haf y flwyddyn a bod disgwyl i'r adroddiad hwnnw gynnwys astudiaethau achos o unrhyw arfer da a nodwyd. O ran cynhwysiant digidol a Strategaeth y Cyngor, dywedodd y Cyfarwyddwr fod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda Phrif Swyddog Digidol Cyngor Castell-nedd a Phort Talbot gan ei fod ar y blaen o ran dilyniant ei Strategaeth. Felly, roedd y Cyngor yn edrych ar gyfleoedd i ddysgu gan eraill a byddai trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal gydag

Awdurdodau Lleol eraill.  Eglurodd y Cyfarwyddwr hefyd fod y Cyngor wedi gwneud darpariaeth ar gyfer buddsoddi i arbed ac adnoddau digidol fel rhan o'r strategaeth cronfeydd wrth gefn a sefydlwyd fel rhan o gyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r canfyddiadau a ddeilliodd o'r adolygiad o Strategaeth Ddigidol y Cyngor (Atodiad A i'r adroddiad), yr ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad ac argymhellion Archwilio Cymru (Atodiad B i'r adroddiad).

(2) BOD y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad diweddaru ymhen chwe mis fel rhan o'r amserlen fonitro ddiwygiedig ac i unrhyw faterion a meysydd llithriant gael eu hamlygu yn yr adroddiad.

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

1032 DIWEDDARIAD AR Y COD RHEOLAETH ARIANNOL 2023/24 (CAC) –

Cyflwynwyd y Cod Rheolaeth Ariannol (Cod RhA) gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) i gefnogi arfer da ym maes rheolaeth ariannol ac i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol.  Fe'i paratowyd am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2022 ac ynghlwm oedd y diweddariad ar gyfer 2023/24.

Ar gyfer 2023/24 bu rhywfaint o asesu annibynnol hefyd gydag adran Archwilio Mewnol y Cyngor yn adolygu nifer o elfennau o'r hunanasesiad swyddog.

Rhaid i bob Awdurdod Lleol (a'r cyrff hynny a ddynodwyd i gymhwyso'r Cod RhA) ddangos bod gofynion y Cod yn cael eu bodloni.  Roedd dangos y gydymffurfiaeth hon â'r Cod RhA yn gyfrifoldeb ar y cyd gan Aelodau Etholedig, y Prif Swyddog Cyllid (PSC) a'u cydweithwyr proffesiynol yn y Tîm Arweinyddiaeth.

Roedd yr adolygiad wedi'i ddiweddaru wedi cael ei ystyried gan Uwch Dîm Arwain y Cyngor ac roedd yn cael ei adrodd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am sylwadau.

Roedd angen i'r Cyngor ddangos tystiolaeth o'i asesiad o gydymffurfiaeth â'r Cod a nodi unrhyw feysydd i'w gwella ymhellach.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Hooper at Adran 1 yr adroddiad a oedd yn nodi bod yr asesiad yn cydymffurfio'n rhannol a gofynnodd am fwy o wybodaeth.  Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 ei bod wedi cael ei nodi y gallai'r Cyngor wneud mwy o waith yng nghyd-destun 'gwerth cymdeithasol' ac felly, roedd cwpl o feysydd i'r Cyngor eu datblygu.  Yn ogystal â'r pwynt hwnnw, tynnodd y

Cynghorydd J. Protheroe sylw at y ffaith ei bod, fel aelod o'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol, yn rhan o Adolygiad Gorchwyl a Gorffen a oedd yn cynnwys edrych ar sut y gallai'r Cyngor gyflawni mwy o ganlyniadau gwerth cymdeithasol. Y gobaith oedd y byddai'r adroddiad yn cael ei gwblhau erbyn yr Hydref. Ar ôl ei gymeradwyo, gellir cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Dywedodd Mr G. Chapman (Cadeirydd) y byddai'n ddefnyddiol cynnal asesiad allanol mwy annibynnol a chyfeiriodd hefyd at yr heriau ariannol presennol sy'n wynebu'r Cyngor, a dywedodd y dylid tynnu sylw at yr heriau a'r goblygiadau sy'n wynebu'r Cyngor wrth gyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Rheolaeth Ariannol a chynnwys yr adolygiad, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(2) Y DYLID hysbysu'r Cabinet o farn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, yn ogystal â'r goblygiadau posibl a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor o ran cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

1033 CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN SEILIEDIG AR RISG ARCHWILIO MEWNOL 2023/24 (PGAWR) –

Rhoddodd yr adroddiad grynodeb o'r cynnydd a wnaed hyd yma, ac felly nodwyd sefyllfa derfynol dros dro yn Atodiad A. Dangosodd fod 52 o’r 75 o adolygiadau archwilio wedi'u cwblhau a oedd yn cyfateb i gyfradd cwblhau 69%. Roedd 9 archwiliad yn dal i fynd rhagddynt a phe bai unrhyw un o'r archwiliadau hyn yn dod i ben dros yr wythnosau nesaf, a bod barn archwilio yn cael ei rhoi, byddent hefyd yn cael eu cynnwys yn y farn flynyddol gyffredinol ar gyfer 2023/24.

Yn seiliedig ar yr asesiad o gryfderau a gwendidau'r meysydd a archwiliwyd drwy brofi effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol, roedd barn archwilio wedi’i chynnig ar 48 o’r 52 o archwiliadau a gwblhawyd. Roedd 39 o archwiliadau wedi derbyn sicrwydd Sylweddol neu Resymol ac roedd 9 archwiliad wedi derbyn sicrwydd Cyfyngedig. Mae manylion y risgiau a nodwyd a ganfuwyd yn yr adroddiadau sicrwydd Cyfyngedig a gwblhawyd ers yr adroddiad diwethaf i’w gweld isod.

Wedi’u cynnwys yng Nghynllun 2023/24 roedd 21 o archwiliadau heb eu cynnal na'u cwblhau yn 2022-23; fodd bynnag, tynnwyd un o'r Cynllun gan fod y gwasanaeth wedi newid ac nad oedd y risgiau a nodwyd blaenorol yn bodoli mwyach.

Dangosodd Atodiad B yr adroddiad statws yr 20 o archwiliadau a oedd yn weddill; roedd 14 wedi’u cwblhau, roedd 4 ar y gweill ac roedd 2 wedi'u gohirio tan 2024/25.

Hyd yn hyn roedd 228 o argymhellion wedi’u gwneud i wella'r amgylchedd rheoli. Roedd y cynnydd a oedd yn cael ei wneud wrth weithredu'r rheiny yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan yr Archwilwyr a'i adrodd i'r Pwyllgor.

Gofynnodd Mr N. Ireland (Aelod Lleyg) pryd y byddai'r Archwiliad Diogelu yn cael ei gwblhau ac a oedd yn briodol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael gwybod yn gynt o bryd y gohiriwyd archwiliadau.  Mewn ymateb, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod yr Archwiliad Diogelu wedi'i gwblhau ac y byddai'n cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Barn Archwilio ar gyfer y flwyddyn.  O ran yr archwiliadau a ohiriwyd tan 2024/25, roedd y rhesymau dros ohirio yn bennaf oherwydd adnoddau o fewn yr Adran Archwilio a byddai'r rheiny'n cael sylw maes o law.  Gohiriwyd un o'r archwiliadau wedi’u gohirio yn ymwneud â gwaith cyfalaf ar gais yr Adran Gyllid gan y teimlwyd bod mater capasiti o fewn y Tîm Cyllid yn ystod cyfnod y Gwanwyn er mwyn cwblhau'r Datganiad Cyfrifon Ariannol.

Dywedodd y Cynghorydd E. Goodjohn y byddai'n hoffi gwybod mwy am y rhesymau dros unrhyw archwiliadau wedi’u gohirio ac yn enwedig mewn perthynas â pha mor bwysig oedd pob archwiliad.  Er enghraifft, gohiriwyd yr adolygiad arbedion cyllidebol ond roedd hynny'n arbennig o berthnasol o ystyried yr ansefydlogrwydd ariannol presennol ac oherwydd yr argyfwng costau byw.  Felly, roedd hwn yn ddarn pwysig o waith.  Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod yr holl archwiliadau a gynlluniwyd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Archwilio, ond roedd yn bwysig i'r gwasanaeth flaenoriaethu rhai meysydd gan fod agweddau gweithredol ar bob gwasanaeth a oedd angen ystyriaeth ac efallai bod problem hefyd ynghylch adnoddau.

Dywedodd Mr M. Evans (Aelod Lleyg) y gallai fod cynllunio gwell o ran amseriadau archwiliadau er mwyn osgoi cyfnodau prysur gwaith archwilio.  Yn ogystal, dywedodd y dylai'r Pwyllgor fod â mwy o oruchwyliaeth o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig gan y byddai hynny'n gwella amgylchedd atebolrwydd y Pwyllgor.  Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, o ran gwelededd archwiliadau wedi’u gohirio, y byddai hynny yn cael ei ystyried yn barhaus.  Byddai'n dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn neu lefel yr adnoddau.  O ran y drafodaeth ynghylch sicrwydd cyfyngedig, trosolwg oedd y wybodaeth a roddwyd i'r Pwyllgor a mater i'r Pwyllgor fyddai gofyn am fwy o wybodaeth neu bresenoldeb perthnasol gan swyddogion.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol hefyd y byddai'n myfyrio ar y sylwadau o ran sut y cafodd materion eu hadrodd i'r Pwyllgor.

Dywedodd Mr. G. Chapman (Cadeirydd), o ran y tri archwiliad sicrwydd cyfyngedig a amlygwyd yn yr adroddiad yn ymwneud â Chanolfannau Hamdden – monitro contractau a pherfformiad, dyledwyr a Chartrefi Preswyl – costau bwyd a rheoli stoc, y dylid gofyn i'r Cyfarwyddwyr neu'r Penaethiaid Gwasanaeth priodol ddod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn cyflwyno adroddiad diweddaru.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD –

(1) NODI cynnwys yr adroddiad a sefyllfa derfynol amodol Cynllun Blynyddol Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2023/24.

(2) GOFYN i'r Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol ar gyfer y tri archwiliad sicrwydd cyfyngedig a nodwyd ym mharagraff 2.6 o'r adroddiad yn ymwneud â Chanolfannau Hamdden, Dyledwyr a Chartrefi Preswyl, fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ddarparu adrodd a diweddaru ar y camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion yn dilyn yr adolygiad o Archwilio Mewnol.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael diweddariad mewn perthynas â'r tri archwiliad sicrwydd cyfyngedig a amlygwyd ym mharagraff 2.6 yr adroddiad.

1034 MONITRO ARGYMHELLION (PGAMR) –

Roedd manylion datganiad sefyllfa o ran argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig archwilio mewnol wedi'u gwneud, wedi'u gweithredu a heb eu cwblhau ar 28 Mawrth 2024 i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad.

Roedd cyfanswm o 124 o argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig wedi'u gwneud yn dilyn gorffen archwiliadau o Gynllun Blynyddol 2023-24. Cytunwyd ar y rhain i gyd a hyd yma roedd 66 wedi'u gweithredu, roedd gan 58 ddyddiad gweithredu yn y dyfodol ac nid oedd unrhyw rai'n hwyr yn cael eu cwblhau.

Yn ogystal, nid oedd unrhyw argymhellion yn hwyr yn cael eu cwblhau mewn perthynas ag archwiliadau a gwblhawyd cyn y flwyddyn ariannol bresennol chwaith.

Roedd un argymhelliad blaenoriaeth ganolig a wnaed mewn archwiliad a gynhaliwyd yn 2021-22 yn parhau â dyddiad targed ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Yn ogystal, roedd gan 12 argymhelliad a wnaed yn 2022/23 ddyddiad targed yn y dyfodol ac roedd y rhain yn parhau i gael eu monitro.

Roedd archwilwyr yn monitro'r argymhellion yn rheolaidd a byddai unrhyw oedi neu faterion diangen yn cael eu hamlygu i Uwch Reolwyr ac yn y pen draw, y Pwyllgor hwn.

Gofynnodd Mr N. Ireland (Aelod Lleyg) beth ddigwyddodd mewn perthynas â'r un argymhelliad a oedd heb ei gwblhau ar gyfer yr Archwiliad Diogelu a gynhaliwyd yn ystod 2021/22. Mewn ymateb, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y wybodaeth honno yn ymddangos ar hyn o bryd yn Atodiad A gyda dyddiad cwblhau yn y dyfodol wedi'i gynnwys. Dywedodd y

Dirprwy Bennaeth fod y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu proses newydd gyda'r nod o gwblhau hynny erbyn mis Gorffennaf.

Cyfeiriodd y Cadeirydd, Mr G. Chapman, at yr adroddiad blaenorol a ystyriwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2024 ac yn arbennig y diweddariad gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai ynghylch ysgolion a chydymffurfiaeth adeiladau. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau yn gallu cynorthwyo a chefnogi Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai yn y mater hwnnw a oedd yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch. Dywedodd y Cadeirydd fod hynny'n rhywbeth y gellid ei godi i Dîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 fod Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai yn cyflwyno adroddiad i Dîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor felly roedd cyfle i'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau gael gwybod.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD –

(1) NODI cynnwys yr adroddiad.

(2) MEWN perthynas â materion iechyd a diogelwch a chydymffurfiaeth adeiladau ysgolion, bod y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau yn cynorthwyo Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai i sicrhau bod yr ysgolion a nodir yn yr adroddiad yn bodloni'r rheoliadau cydymffurfio ac iechyd a diogelwch angenrheidiol.

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

1035 RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL 2024/25 (PGAMR) –

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gorchwyl.

Roedd yn derbyn adroddiadau a chyflwyniadau gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau craidd hynny'n effeithiol a rhoi hyder iddo yn llywodraethiant ariannol yr Awdurdod.

Roedd y Flaenraglen Waith (BW) ddrafft ar gyfer 2024/25 wedi'i chynhyrchu ac roedd yn cyd-fynd â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r BW wedi'i diweddaru neu ofyn am newidiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper ei fod wedi gofyn y cwestiwn yn flaenorol mewn perthynas â chyfrifon Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gofynnodd a oedd y cyfrifon hynny wedi'u cwblhau. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 y byddai'n cadarnhau a oedd y cyfrifon wedi'u cymeradwyo a phe bai cyfnod hir cyn i hynny gael ei wneud, yna byddai'n cael ei adrodd yn ôl i'r

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.  Ychwanegodd y Cynghorydd Hooper, o ran tryloywder ac i drethdalwyr y Cyngor, ei bod yn bwysig i drigolion ddeall ble roedd cyfraniad y Fro i'r Fargen Ddinesig yn cael ei wario.  Cytunwyd i'r mater gael ei godi gydag Archwilio Cymru.

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at Gyfarfod Ychwanegol posibl i'w gynnal yn ystod mis Mai a fyddai hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf o'r tri adroddiad sicrwydd cyfyngedig y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad a ystyriwyd dan Eitem 6 ar yr Agenda – Cynnydd yn erbyn Cynllun ar Sail Risg Archwilio Mewnol 2023/24.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD – NODI'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, yn amodol ar ystyriaeth bellach ynghylch a fyddai angen cyfarfod Arbennig / Eithriadol ar gyfer Mai 2024.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.